***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1353 (Cy.101) (C.59)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 3 ac Arbediad a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005

*Wedi'i wneud - - 17 Mai 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 181 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 3 ac Arbediad a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, oni ddywedir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ac Atodlenni iddi.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru

### Darpariaethau sy'n dod i rym yng Nghymru ar 31 Mai 2005

**2.** Yn ddarostyngedig i erthygl 3, daw'r darpariaethau canlynol i rym yng Nghymru ar 31 Mai 2005 —

(a) adran 126,

(b) adran 157, i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 15 o Atodlen 10,

(c) adran 164, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym,

(ch) adran 165,

(d) adrannau 166 a 167, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym,

(dd) adrannau 168 i 170,

(e) adran 171, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym,

(**1**) 2002 p.15. Gweler y diffiniad o "the appropriate national authority" yn adran 181(4).

(f) yn adran 172, is-adrannau (1) i (5), ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â chymhwysiad adrannau 21 i 22 o Ddeddf Landlord a Thenant 1985(**2**), fel y'u hamnewidir neu fel y'u mewnosodir gan adrannau 152 i 154, i'r Goron,

(ff) adran 176 ac Atodlen 13, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym, a

(g) adran 180, i'r graddau y mae'n ymwneud â diddymu yn Atodlen 14 —

(i) y diffiniad o “the valuation date” ym mharagraff 1(1) o Atodlen 6 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993(**3**);

(ii) adran 82 o Ddeddf Tai 1996(**4**); a

(iii) ym mharagraff 18(2) o Atodlen 10 i'r Ddeddf honno, paragraff (b) a'r gair “and” sydd o'i flaen.

**Arbediad a darpariaeth drosiannol**

**3.**—(1) Yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar 31 Mai 2005 ac sy'n dod i ben ar y dyddiad y mae adrannau 121 i 124 yn dod i rym yn llawn, bydd paragraff 4(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 yn effeithiol fel petai'r geiriau “persons who are participating tenants immediately before a binding contract is entered into in pursuance of the initial notice” wedi'u rhoi yn lle'r geiriau “participating tenants”.

(2) Ni fydd adran 126 yn effeithiol o ran —

(a) hysbysiadau a roddir cyn 31 Mai 2005 o dan adran 13 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993; neu

(b) ceisiadau a wneir cyn 31 Mai 2005 o dan adran 26 o'r Ddeddf honno.

(3) Ni fydd adran 168 yn effeithiol o ran hysbysiadau a gyflwynir o dan adran 146(1) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925(**5**) cyn 31 Mai 2005 ynghylch torri unrhyw gyfamod neu amod gan denant.

(4) Ni fydd y diwygiadau a wnaed gan adran 170 yn effeithiol o ran hysbysiadau a gyflwynir o dan adran 146(1) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 cyn 31 Mai 2005.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

*D. Elis-Thomas*
17 Mai 2005 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1985 p.70. (Caiff adrannau 21, 21A, 21B a 22 eu hamnewid neu eu mewnosod pan ddaw adrannau 152 i 154 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 i rym yn llawn).
(**3**) 1993 p.28.
(**4**) 1996 p.52.
(**5**) 1925 p.20.
(**6**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau pellach Rhan 2 (Diwygio Cyfraith Lesddaliad) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ("Deddf 2002").

Daw darpariaethau Deddf 2002 a grybwyllir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn i rym, o ran Cymru, ar 31 Mai 2005. Maent yn cynnwys:

(a) darpariaethau sy'n diwygio adran 18(1) o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 ("Deddf 1993") ac Atodlen 6 iddi. Prif effaith y diwygiadau yw y bydd y pris sydd i'w dalu am y rhydd-ddaliad, pan fo'n cael ei brynu gan denantiaid cymwys, yn adlewyrchu gwerth y buddiannau sy'n cael eu dal gan yr holl landlordiaid yn yr eiddo o dan sylw ar y dyddiad y mae hysbysiad o'r hawliad i arfer yr hawl i ryddfreiniad ar y cyd yn cael ei roi o dan adran 13 o Ddeddf 1993 (adran 126). Mae darpariaeth drosiannol berthnasol yn erthygl 3(1) ac arbediad perthnasol yn erthygl 3(2);

(b) darpariaethau newydd y caiff deiliaid lesoedd hir, mewn amgylchiadau penodol, yswirio eu tai odanynt ac eithrio gydag yswiriwr a enwir neu a gymeradwyir gan y landlord (adran 164);

(c) darpariaethau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid hysbysu deiliaid lesoedd hir bod rhent yn ddyledus (adran 166);

(ch) darpariaethau newydd sy'n atal landlord deiliad les hir rhag arfer hawl ailfynediad neu hawl fforffedu oherwydd methiant y lesddeiliad i dalu rhent, taliadau gwasanaeth neu daliadau gweinyddu pan nad yw'r swm sydd heb ei dalu a'r cyfnod y mae unrhyw ran o'r swm hwnnw wedi bod yn daladwy ar ei gyfer yn fwy na'r swm a'r cyfnod a ragnodir mewn rheoliadau (adran 167);

(d) darpariaethau newydd sy'n atal landlord deiliad les hir rhag cyflwyno hysbysiad fforffedu oherwydd bod cyfamod neu amod yn y les wedi'i dorri oni bai bod y lesddeiliad yn cyfaddef ei fod wedi'i dorri, neu fod llys neu dribiwnlys cymrodeddu wedi penderfynu'n derfynol bod y toriad wedi digwydd (adrannau 168 a 169). Mae arbediad, sy'n berthnasol i adran 168, yn erthygl 3(3); ac

(dd) newidiadau i'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall landlord deiliad les hir arfer hawl ailfynediad neu hawl fforffedu oherwydd methiant i dalu taliadau gwasanaeth (adran 170). Mae arbediad perthnasol yn erthygl 3(4).

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Deddf 2002 wedi'u dwyn i rym yng Nghymru drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adrannau 71 i 73 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adran 74 | 1 Ionawr 2003 (yn rhannol) 30 Mawrth 2004 (y gweddill) | 2002/30122004/669 |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adrannau 75 i 77 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adran 78 | 1 Ionawr 2003 (yn rhannol) 30 Mawrth 2004 (y gweddill) | 2002/30122004/669 |
| Adran 79 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adran 80 | 1 Ionawr 2003 (yn rhannol) 30 Mawrth 2004 (y gweddill) | 2002/30122004/669 |
| Adrannau 81 i 83 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adran 84 | 1 Ionawr 2003 (yn rhannol) 30 Mawrth 2004 (y gweddill) | 2002/30122004/669 |
| Adrannau 85 i 91 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adran 92 | 1 Ionawr 2003 (yn rhannol) 30 Mawrth 2004 (y gweddill) | 2002/30122004/669 |
| Adrannau 93 i 103 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adrannau 105 i 109 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adran 110 | 1 Ionawr 2003 (yn rhannol) 30 Mawrth 2004 (y gweddill) | 2002/30122004/669 |
| Adrannau 111 i 113 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adrannau 114 i 120 | 1 Ionawr 2003 | 2002/3012 |
| Adran 122 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2003 | 2002/3012 |
| Adran 125 | 1 Ionawr 2003 | 2002/3012 |
| Adrannau 127 i 147 | 1 Ionawr 2003 | 2002/3012 |
| Adrannau 148 i 150 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adran 151 | 1 Ionawr 2003 (yn rhannol) 30 Mawrth 2004 (y gweddill) | 2002/30122004/669 |
| Adrannau 152 a 153 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2003 | 2002/3012 |
| Adran 155 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adran 156 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2003 | 2002/3012 |
| Adran 157 (yn rhannol) | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adrannau 158 a 159 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adrannau 160 i 162 | 1 Ionawr 2003 | 2002/3012 |
| Adran 163 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adran 164 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2003 | 2002/3012 |
| Adrannau 166 a 167 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2003 | 2002/3012 |
| Adran 171 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2003 | 2002/3012 |
| Adran 172 (yn rhannol) | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 173 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adran 174 | 1 Ionawr 2003 (yn rhannol) 30 Mawrth 2004 (y gweddill) | 2002/30122004/669 |
| Adran 175 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adran 176 (yn rhannol) | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Adran 180 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2003 30 Mawrth 2004 | 2002/30122004/669 |
| Atodlen 6 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Atodlen 7 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Atodlen 9 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Atodlen 10 (yn rhannol) | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Atodlen 11 | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Atodlen 12 | 1 Ionawr 2003 (yn rhannol) 30 Mawrth 2004 (y gweddill) | 2002/30122004/669 |
| Atodlen 13 (yn rhannol) | 30 Mawrth 2004 | 2004/669 |
| Atodlen 14 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2003 30 Mawrth 2004 | 2002/30122004/669 |

Mae Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 5 ac Arbediad a Darpariaeth Drosiannol) 2004 (O.S. 2004/3056) (p.127) wedi dwyn i rym, o ran Cymru a Lloegr, adran 180 o Ddeddf 2002 i'r graddau y mae'n ymwneud â diddymu yn Atodlen 14 adran 104 o'r Ddeddf honno.

Mae darpariaethau yn Rhan 1 o Ddeddf 2002 (Cyfunddaliad) wedi'u dwyn i rym o ran Cymru a Lloegr gan y Gorchmynion Cychwyn canlynol —

Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 3) 2003 (O.S. 2003/2377) (p.91); a

Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 4) 2004 (O.S. 2004/1832) (p.76).